**Ward Adferiad**
**Uned Iechyd Meddwl Acíwt ar gyfer Oedolion**
**Ar gyfer Casnewydd a Sir Fynwy Isaf**
**Rhif ffôn: 01633 436868**





## Croeso i Uned Adferiad

Croeso i Uned Adferiad - yn ystod eich cyfnod gyda ni, byddwn yn eich cefnogi a'ch cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau unigol ynghylch asesiadau a thriniaethau yn seiliedig ar eich anghenion a'ch dymuniadau presennol. Mae ein hathroniaeth yn cynnwys proses adfer a dull gwasanaeth cyfan, a all gynnwys nyrsio, meddygaeth, therapi galwedigaethol, gwasanaethau cymdeithasol, staff seicoleg a chysylltiadau â sefydliadau gwirfoddol. Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw gwestiynau.

## Derbyniad i'r uned

Er mwyn eich cefnogi yn ystod eich derbyniad, bydd cydlynydd gofal yn cael ei ddyrannu i chi. Bydd yn eich cynorthwyo a'ch cefnogi chi a'r tîm wrth ddynodi eich anghenion a bydd yn cydweithio gyda chi wrth ddatblygu eich cynllun gofal a'ch llwybr gofal unigol.

Er eich diogelwch ar ôl i chi gael eich derbyn:-

- ✓ Rhowch eich holl feddyginiaethau i'r staff fel bod aelod cymwys o'r staff nyrsio yn gallu eu rhoi a'u monitro i chi.

- ✓ Os oes gennych unrhyw sylweddau anghyfreithlon neu alcohol, gofynnwn i chi eu rhoi i'r staff fel y gellir cael gwared ohonynt yn ddiogel.

- ✓ Bydd staff y ward yn rhestru unrhyw eitemau yr ydych wedi dod â nhw gyda chi i'r ysbyty a'u cofnodi mewn llyfr eiddo gyda chi. Byddem yn eich annog i anfon symiau o arian sy'n fwy na £30.00 adref. Bydd unrhyw eitemau anniogel posibl yn cael eu storio'n briodol er mwyn lleihau unrhyw risgiau posibl. Byddai hyn yn cynnwys tanwyr sigaréts, eitemau miniog, raseli a diaroglyddion erosol ac ati.

- ✓ Yn ystod eich arhosiad, rydym yn eich annog i anfon unrhyw eitemau gwerthfawr adref. Os ydych am gadw rhai eitemau gyda chi, mae blwch diogelwch y gellir ei gloi lle gellir storio eitemau yn ystod eich arhosiad. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am eich eiddo yn ystod eich arhosiad yn yr ysbyty.

- ✓ Os oes gennych unrhyw eitemau trydanol sydd angen eu gwefru, siaradwch ag aelod o staff y ward a byddem yn hapus i'ch cynorthwyo.




## Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae gan bob claf fynediad at wasanaethau eiriolaeth. Mae'r Gwasanaeth Eiriolaeth yn ymweld â'r ward yn rheolaidd a byddant ar gael i siarad gyda chi a darparu cymorth neu gyngor ymarferol. Gellir gofyn am fanylion am sut i gysylltu â'r gwasanaeth eiriolaeth gan staff y ward.



## Amseroedd Ymweld

Mae'r amseroedd ymweld rhwng 3pm ac 8pm, 7 diwrnod yr wythnos. Mewn achosion lle nad yw ymwelwyr yn gallu ymweld yn ystod yr amseroedd hyn, siaradwch â staff y ward fel y gellir ystyried amseroedd amgen.

Yn achos plant sy'n ymweld â chi ar y ward, rhowch wybod i ni ymlaen llaw fel y gellir gwneud y trefniadau priodol, bydd angen i unrhyw un o dan 16 oed ymweld yng nghwmni oedolyn. Bydd angen hefyd i aelod o staff fod yn bresennol gan fod ymweliadau yn cael eu cynnal yn yr ardal deulu.

## Amseroedd Bwyta

Mae’r ward yn hyrwyddo bwyta’n iach ac mae ganddi amseroedd bwyta gwarchodedig sy’n cael eu cynnal y tu allan i’r oriau ymweld, sef 3pm ac 8pm. Bydd hyn yn eich galluogi i fwyta eich pryd bwyd heb gael eich tarfu. Rydym yn gwerthfawrogi y gallai fod eithriadau i hyn yn seiliedig ar angen yr unigolyn, felly trafodwch hyn gyda’r staff nyrsio.

## Trosglwyddo

Efallai y bydd achlysuron, oherwydd rhesymau clinigol, pan fydd angen i chi symud i ward arall o fewn y Bwrdd Iechyd. Byddwn bob amser yn ceisio cyfyngu ar y digwyddiadau hyn a sicrhau bod unrhyw drosglwyddo yn seiliedig ar angen clinigol.

## Arsylwi a Diogelwch

Mae’r uned yn gweithredu polisi arsylwi er mwyn lleihau risgiau a chynnal amgylchedd therapiwtig diogel ar gyfer yr holl gleifion sydd yn ein gofal. Bydd unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn eich lefel arsylwi yn cael ei esbonio’n glir i chi gan y tîm nyrsio.

## Statws Derbyn

Mae’r ward yn delio â chleifion anffurfiol a chleifion ffurfiol. Os ydych yn **glaf anffurfiol**, rydych ar y ward o’ch gwirfodd, sy’n golygu y gallwch adael pan rydych yn dymuno gwneud hynny, ond byddem yn gofyn i chi roi gwybod i’r nyrs mewn gofal. Mewn rhai achosion, efallai y bydd y staff nyrsio yn rhwystro claf gwirfoddol rhag gadael y ward os ydynt yn teimlo ei fod yn risg iddo ef ei hun neu i eraill.

Os ydych yn **glaf ffurfiol**, byddwch yn cael eich cadw ar y ward o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Gallai cleifion sy’n cael eu cadw’n ffurfiol adael yr uned ar ôl cytuno â'u Clinigydd Cyfrifol.

Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei rhoi i chi mewn perthynas â’ch statws Deddf Iechyd Meddwl a bydd yr hawl gennych i gynrychiolaeth gan Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA). Fel claf sy’n cael ei gadw, mae’r hawl gennych i apelio i reolwyr yr ysbyty a/neu Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl.



## Rowndiau Ward

Mae’r ward yn cael ei chefnogi gan 2 Feddyg Ymgynghorol

a fydd yn adolygu cleifion o leiaf unwaith yr wythnos. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei darparu ar ôl i chi gael eich derbyn.

- Gogledd Casnewydd a Dwyrain Casnewydd
  Bore dydd Mawrth (Dwyrain Casnewydd) a bore dydd Mercher (Dwyrain Casnewydd)
- Sir Fynwy Isaf
  Bore dydd Mawrth

Mae'r rowndiau ward yn gyfle i chi, a'r rhai sy'n rhan o'ch gofal, adolygu eich cynnydd a'ch cynllun triniaeth presennol. Bydd aelod o staff yn esbonio i chi ymlaen llaw ym mha ffurff y bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal ac yn trafod pwy allai fod yn bresennol gyda chi. Os ydych yn teimlo'n anghyfforddus gydag unrhyw ran o hyn, rhowch wybod i aelod o staff neu'r Eiriolwr Cleifion.

Fel arfer, byddwch chi, Nyrs Gofrestredig (neu ddirprwy enwebedig) a Chynrychiolydd Meddygol (Seiciatrydd Ymgynghorol fel arfer) yn bresennol. Efallai y bydd disgyblaethau eraill yn cael gwahoddiad os yw anghenion penodol yn cael eu dynodi, ond bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi ymlaen llaw. Bydd dewis gennych a all eiriolwr claf a/neu aelod o'r teulu neu ffrind fod yn bresennol gyda chi yn ystod Rowndiau Ward. Fel gwasanaeth, rydym yn annog cynnwys teulu a gofalwyr wrth ffurfio Cynllun Gofal a Thriniaeth.




## Gwybodaeth Gyfrinachol/Meddygol

Mae gan bob aelod o staff sy'n gweithio i'r GIG a'r Awdurdod Lleol rwymedigaeth gyfreithiol i gadw gwybodaeth amdanoch yn gyfrinachol ac yn ddiogel. Mae adegau lle mae'n briodol rhannu gwybodaeth amdanoch chi a'ch gofal iechyd gydag eraill megis Meddyg Teulu neu'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol. Weithiau, mae angen rhannu gwybodaeth berthnasol er mwyn ein helpu i weithio gyda'n gilydd er eich lles pennaf. Efallai y bydd hefyd amgylchiadau eithriadol lle bydd eich gwybodaeth yn cael ei datgelu neu lle mae'r gyfraith yn gofyn i wybodaeth gael ei thrafod. Gyda'ch caniatâd, efallai y byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda'r perthynas, gofalydd neu ffrind a enwir gennych.

## Staff ar y Ward

Mae'r tîm staff ar y ward yn cynnwys Nyrsys Cofrestredig, Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, Therapyddion Galwedigaethol, Meddygon, Seicolegwyr, Clerc Ward a staff Domestig.

Yn achlysurol, efallai y bydd myfyrwyr nyrsio/meddygol/therapi galwedigaethol yn rhan o'ch gofal er bod yr hawl gennych i wrthod eu mewnbwn os ydych yn dymuno gwneud hynny. Mae Meddyg Ymgynghorol yn cael eu cefnogi gan feddygon iau, sy'n cylchdroi ar draws y Bwrdd Iechyd.

## Therapi Galwedigaethol

Nod Therapi Galwedigaethol yw eich cefnogi gyda'r pethau sy'n bwysig i chi yn eich bywyd. Gall hyn olygu gweithio tuag at nodau bach, hylaw sy'n dechrau helpu i ychwanegu strwythur a threfn at eich bywyd bob dydd, gan arwain at nodau tymor hwy i weithio tuag atynt yn y dyfodol.

Mae Therapyddion Galwedigaethol yn canolbwyntio ar adferiad tra'n mynd i'r afael â sgiliau bywyd ym meysydd hunanofal, cynhyrchiant a hamdden. Mae rhaglenni 'Adfer trwy weithgaredd' wedi'u graddio yn cael eu cynnig ar bob ward, gan ymdrin â phynciau diddorol amrywiol drwy gydol eich arhosiad. Mae'r sesiynau hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau y gallech fod yn gyfarwydd â nhw yn ogystal â chyfleoedd i roi cynnig ar rywbeth newydd. Bydd rhai sesiynau yn seiliedig ar wybodaeth a bydd rhai yn seiliedig ar weithgaredd.



## Ystafell Weithgareddau/Therapïau

Mae ystafell weithgareddau a therapïau ar gael ar y ward. Mae Amserlen Adfer wedi'i chynllunio sy'n ymgorffori amryw o weithgareddau/ymyriadau sydd â'r nod o'ch cefnogi trwy eich adferiad tra'r ydych ar y ward. Mae rhai o'r rhain wedi'u hwyluso gan ein Tîm Therapi Galwedigaethol, ac mae eraill wedi'u hwyluso gan staff y ward ac asiantaethau allanol sy'n darparu gwasanaethau mewnol i'r ward. Mae rhai gweithgareddau yn cael eu cynnal ar y ward ac mae eraill yn cael eu cynnal yn y gymuned; bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu teilwra i'ch anghenion unigol.

## Therapi Seicolegol

Fel rhan o ddarpariaeth y rhaglen therapiwtig, mae therapïau seicolegol ar gael ar yr uned er mwyn archwilio ffyrdd o ymdopi gydag argyfwng ac emosiynau gofidus. Mae sgiliau megis ymlacio a meddwlgarwch yn cael eu hymarfer. Mae'r sesiynau hyn yn hyblyg ac yn cael eu teilwra cymaint â phosibl i fodloni eich anghenion unigol. Mae croeso i chi siarad ag aelod o'r staff os oes angen mwy o wybodaeth arnoch.

## Cyfleusterau Golchi Dillad

Mae cyfleusterau golchi dillad ar gael ar y ward a gallwch eu defnyddio yn ôl yr angen.



## Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)

Mae CCTV yn cael ei ddefnyddio mewn rhai mannau ar y ward er mwyn gwella diogelwch a rhoi sicrwydd i'r cleifion, ymwelwyr a staff bod ymdrechion yn cael eu gwneud i'w diogelu. Mae arwyddion yn cael eu harddangos yn eich hysbysu lle mae'r CCTV yn weithredol.

Mae'r defnydd o CCTV yn unol â pholisiau a deddfwriaeth bresennol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch y defnydd o CCTV, siaradwch ag aelod o staff y ward.

## Alcohol a Chyffuriau

Tra byddwch yn glaf mewnol, gofynnwn i chi beidio â defnyddio alcohol na sylweddau anghyfreithlon. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd y staff nyrsio yn gofyn i chi wneud prawf sgrinio alcohol neu gyffuriau, os yw arsylwadau clinigol yn dangos yr angen am hynny. Mae hyn oherwydd y gallent beri risg sylweddol i'ch iechyd meddwl a'ch iechyd corfforol a gall achosi rhyngweithio niweidiol ag unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn.

## Trais ac Ymddygiad Ymosodol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu dull dim goddefgarwch tuag at unrhyw fath o drais neu ymddygiad ymosodol a ddangosir tuag at gleifion eraill, ymwelwyr neu staff y bwrdd iechyd. Gallai mynd yn groes i hyn arwain at gynnwys yr heddlu ac erlyniad posibl.

## Ysmygu

Mae gan y ward ardal ysmygu ddynodedig lle caniateir ysmygu ar hyn o bryd. Yn unol â pholisi Amgylchedd Di-fwg y Bwrdd Iechyd, gofynnwn i chi beidio ag ysmygu mewn unrhyw ardaloedd eraill a bod tanwyr sigaréts yn cael eu rhoi i'r staff ar adeg eich derbyn i'r ysbyty. Ni ddylid gwefru e-sigaréts ar unrhyw safle'r bwrdd iechyd oherwydd eu risg diogelwch tân.

Os hoffech gymorth i roi'r gorau i ysmygu tra'r ydych yn yr ysbyty, siaradwch â staff y ward yn ystod eich derbyniad.

## Ffonau Symudol/Dyfeisiau - Cyfrinachedd



Mae croeso i chi ddefnyddio eich ffôn symudol mewn modd parchus tra'r ydych ar y ward - yn ddelfrydol ym mhreifatrwydd eich ystafell wely. Gall defnyddio ffonau symudol ar gyfer tynnu lluniau/recordio neu ar gyfer defnydd amhriodol o'r cyfryngau cymdeithasol effeithio ar gyfrinachedd ac adferiad rhywun.

Siaradwch ag aelod o staff i wneud trefniadau ar gyfer gwefru eich ffôn symudol neu ddyfais. Os nad oes gennych fynediad at ffôn symudol ac yr hoffech wneud neu dderbyn galwad ffôn, siaradwch ag aelod o staff.

## Canmoliaeth a Chwynion




Rydym yn croesawu eich adborth a byddwn yn defnyddio unrhyw sylwadau cadarnhaol neu negyddol a allai fod gennych am y gwasanaeth i wella profiad cleifion.

Os ydych yn anhapus gydag unrhyw elfen o'n gwasanaeth, codwch eich pryderon gyda'r staff sy'n rhan o'ch gofal neu driniaeth fel y gallant geisio datrys eich pryderon ar unwaith. Os nad yw hyn yn helpu neu os nad ydych yn dymuno siarad ag aelod o staff am eich pryderon, mae taflen **Gweithio i Wella** y Bwrdd Iechyd ar gael ar y ward.

Byddem hefyd yn croesawu unrhyw adborth cadarnhaol neu ganmoliaeth y gellir ei anfon ymlaen at aelod o staff ar y ward.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg.**